

Canllaw polisi ar erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn

Polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron

Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn cael eu targedu'n aml oherwydd eu hoedran a'r canfyddiad eu bod yn fregus. Mae hyn yn gallu cael effaith aruthrol ar y dioddefwr oherwydd maent yn cael eu targedu oherwydd nodwedd bersonol. Er nad oes diffiniad statudol o droseddau yn erbyn pobl hŷn, na deddfwriaeth sy'n caniatáu chwyddo'r ddeddfryd fel mewn achosion trosedd casineb, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei ddarparu i bobl hŷn drwy erlyn troseddau yn eu herbyn a chefnogi dioddefwyr a thystion drwy gydol y broses honno.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r ffordd rydym yn delio â throseddau yn erbyn pobl hŷn sydd wedi cael eu targedu ar sail eu hoedran neu ar sail natur fregus yn gysylltiedig ag oedran, a sut rydym yn cefnogi pobl hŷn sy'n dioddef trosedd ac sy'n dystion i drosedd.

Ar gyfer ein polisi a'n canllaw, defnyddir y term "dioddefwr" i ddisgrifio rhywun y gwnaethpwyd trosedd yn ei erbyn, neu achwynnydd mewn achos sy'n cael ei ystyried neu'n cael ei erlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Dyma ein polisi:

- Sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr un mynediad at gyfiawnder â phobl iau, a'u bod yn cael llais yn y System Cyfiawnder Troseddol.
- Mynd ati cyn gynted â phosibl i ganfod troseddau sy'n targedu pobl hŷn.
- Canfod pryd mae troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gorgyffwrdd â pholisïau eraill, megis cam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a genethod, troseddau casineb ac iechyd meddwl.
- Adeiladu achosion cryf gyda'n partneriaid, sy'n bodloni'r profion yn y [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#).
- Cynorthwyo dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth orau.
- Gwahodd llysoedd i gynyddu'r ddeddfryd i droseddau yn erbyn pobl hŷn ar y sail fod targedu dioddefwr bregus yn ffactor gwaethybol sy'n cynyddu difrifoldeb y drosedd.
- Gweithio'n agos â'r heddlu, asiantaethau cyfiawnder troseddol, academwyr, rhanddeiliaid cymunedol a chyrrff eraill i loywi ein dealltwriaeth o droseddau yn erbyn pobl hŷn ac i wella ein hymateb i'r rheini.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau yn erbyn pobl hŷn a hyder ymysg y cyhoedd sy'n rhoi gwybod amdanynt. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusurwydd i achosion lle cafwyd erlyniad llwyddiannus.
- Monitro'r gwaith o weithredu'r polisi hwn.

Pan rydym yn cael achosion sy'n ymwneud â phobl hŷn, byddwn ni'n ymwybodol o'r canlynol:

- Gallai troseddau yn erbyn pobl hŷn fod yn seiliedig ar oedraniaeth neu ragfarn yn erbyn pobl hŷn.
- Mae'r gred, sy'n seiliedig ar stereoteip fod pobl hŷn yn grŵp sydd ryw fodd yn fregus, yn wan, yn dargedau hawdd, 'ar ei hôl hi' ac yn agored i sgamiau, neu'n fwy tebygol fod â chelc o arian, yn agwedd sy'n cymhell rhai troseddau yn erbyn pobl hŷn.

- Gallai pobl hŷn sydd â dementia neu gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran brofi galluedd sy'n amrywio. Mae hyn yn golygu bod eu gallu i ddeall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn medru newid dros gyfnod byr o amser, a hefyd yn medru amrywio o ran gwahanol fathau o benderfyniadau.
- Ni ddylem wneud rhagdybiaethau am ddibynadwyedd, hygrededd na chymhwysedd dioddefwr neu dyst i roi tystiolaeth, ar sail eu hoedran neu natur fregus yn gysylltiedig ag oedran.

Wrth benderfynu a yw er lles y cyhoedd i erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn, rhaid i'n herlynwyr ystyried y [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#). Yn ôl y Cod, os cafodd y drosedd ei chymhell gan unrhyw fath o ragfarn, gan gynnwys yn erbyn oedran y dioddefwr neu os yw'r troseddwr wedi targedu'r dioddefwr neu wedi camfanteisio ar y dioddefwr neu wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr ar sail ei oedran, mae'n fwy tebygol y bydd rhaid erlyn. Dyma ffactorau eraill sy'n berthnasol i les y cyhoedd:

- mae'r troseddwr mewn sefyllfa o awdurdod a/neu ymddiriedaeth o ran eu perthynas gyda'r dioddefwr;
- mae'r drosedd wedi cael effaith ar iechyd corfforol, emosiynol a/neu feddyliol y dioddefwr – yn ôl ymchwil, mae dioddefwyr hŷn yn gallu dioddef mwy o afiechyd corfforol a meddyliol na'u cyfoedion sydd heb ddiodeff trosedd¹;
- cafodd y drosedd ei hailadrodd neu parhaodd y drosedd am gyfnod o amser, neu mae sail i gredu bod y drosedd yn debygol o barhau neu gael ei hailadrodd;
- mae'r troseddwr wedi 'hudo' y dioddefwr fel eu bod yn teimlo bod ganddynt berthynas agos gyda nhw;
- roedd y troseddwr yn ystyried bod y dioddefwr yn fregus;
- cafodd y dioddefwr ei anafu;
- defnyddiwyd arf gan y troseddwr
- fe wnaeth y troseddwr wneud bygythion cyn neu ar ôl y drosedd;
- fe wnaeth y troseddwr gynllunio'r drosedd;
- mae bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sydd, neu a allai fod, yn gysylltiedig; ac
- mae gan y dioddefwr hanes troseddol, yn arbennig euogfarnau am droseddau yn erbyn pobl hŷn.

Os bodlonir y prawf tystiolaeth mewn achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol, bydd lles y cyhoedd o blaid yr erlyniad bron bob amser, a hynny oherwydd y safle o ymddiriedaeth a oedd gan y troseddwr mewn perthynas â'r dioddefwr, yn ogystal â natur eithriadol fregus y dioddefwr yn y sefyllfa.

Mae angen i erlynwyr ystyried hefyd a yw erlyniad yn debygol o gael effaith niweidiol ar les ac iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr. Os oes tystiolaeth fod erlyniad yn debygol o gael effaith niweidiol ar y dioddefwr, gallai hyn fod yn ffactor arwyddocaol yn tueddu yn erbyn erlyn. Dylid ystyried barn y dioddefwr, a phwyso a mesur y farn honno yn erbyn ffactorau eraill er lles y cyhoedd, gan gadw mewn cof bob amser pa mor ddifrifol yw'r drosedd a pha fesurau neu gymorth a allai fod ar gael i leihau'r effaith ar y dioddefwr.

¹ Lachs et al, 2006 a Serfaty et al, 2015

Monitro Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn defnyddio 'fflag' electronig i ddangos Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn yn ein system rheoli achosion. Mae fflagio achosion yn gymorth i ni eu monitro drwy gydol y broses erlyn. Gall erlynwyr neu staff gweinyddol osod fflagiau, a phwrpas y fflagiau yw hysbysu unrhyw un sy'n delio â'r achos fod y polisi hwn yn berthnasol ac y bydd angen iddynt feddwl am rai pethau neu ddilyn rhai prosesau, er enghraifft meddwl am gymorth ychwanegol ar gyfer y dioddefwr o bosibl. Mae hefyd yn caniatáu i ni fonitro a chyhoeddi data ar ein perfformiad yn yr achosion hyn. Mae hyn yn gymorth i ni ganfod tueddiadau a phatrymau, ystyried lle mae angen canolbwyntio hyfforddiant neu efallai roi rhagor o arweiniad i erlynwyr.

Er mwyn fflagio a monitro math neu gategori penodol o drosedd, mae angen i ni ei diffinio. Nid oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn person hŷn. Nid oes consensws chwaith rhwng adrannau'r Llywodraeth na sefydliadau trydydd parti am ba oedran yw person hŷn neu bobl hŷn. [Mae Sefydliad Iechyd y Byd](#) yn awgrymu mai 60 neu 65 yw'r oedrannau sy'n cael eu defnyddio'n fwyaf cyffredin mewn gwledydd datblygedig. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn diffinio person hŷn fel 'rhywun 65 oed neu hŷn', ac mae hynny'n sicrhau bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyson â Sefydliad Iechyd y Byd ac yn gyson hefyd â gwaith monitro a chasglu data Diogelu Oedolion. Rydym yn cydnabod mai peth mympwyol, fel y dywed Sefydliad Iechyd Byd, yw gosod terfyn oedran, felly rydym wedi cynnwys diffiniad fflagio sy'n ceisio sicrhau ein bod ni'n nodi, yn fflagio ac yn monitro achosion priodol.

*'Pan fo'r dioddefwr yn 65 oed neu'n hŷn, mae unrhyw drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei bod wedi cael ei chyflawni **oherwydd** natur fregus y dioddefwr yn gysylltiedig ag oedran neu'r canfyddiad o natur fregus y dioddefwr yn gysylltiedig ag oedran.'*

Nid yw pob person hŷn yn fregus. Gall natur fregus ddibynnu ar y sefyllfa, a gall newid dros amser. Dyma ffactorau i'w hystyried:

- teimlo'n ynysig
- unigrwydd
- profedigaeth neu wahanu'n ddiweddar
- llythrennedd (gan gynnwys llythrennedd ariannol a chyfrifiadurol)
- amgylchedd corfforol (mae sgamwyr yn chwilio am arwyddion fod cartrefi'n perthyn i berson hŷn sy'n cael trafferth ymdopi, er enghraifft gardd wedi tyfu'n wyllt)

Drwy osod diffiniad fflagio sy'n cydnabod y realiti hwn, byddwn ni'n fflagio ac yn monitro achosion pryd mae'r troseddwr yn dethol y dioddefwr neu'n camfanteisio arnynt oherwydd eu bod yn canfod eu bod yn fregus, neu'n darged hawdd, oherwydd eu hoedran. Mae canfyddiadau cymdeithasol yn ymwneud ag oedran a natur fregus yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd person hŷn yn darged i drosedd.

Mae ymchwil academiaidd yn cefnogi'r dull hwn. Mae adroddiad Prifysgol Sussex ar Droseddau Casineb a'r Broses Gyfreithiol wedi argymhell diffiniad 'oherwydd' ar gyfer troseddau sy'n targedu pobl ar sail nodwedd warchoddedig. Mae'r adroddiad yn dweud bod mynd ati'n fwriadol i dargedu unigolyn oherwydd eu nodwedd warchoddedigyn dystiolaeth o

ragfarn a gwahaniaethu ynddo'i hun². Felly, rydym wedi mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer ein proses fflagio ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae'n bwysig bod achosion perthasol yn cael eu nodi fel troseddau yn erbyn pobl hŷn cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn gymorth i ni weithio gydag asiantaethau eraill yn y maes cyfiawnder troseddol i ddarparu cymorth priodol i'r dioddefwr neu i dystion ac i gyflwyno'r dystiolaeth orau i'r llys.

Unwaith y bydd achos wedi cael ei fflagio fel trosedd yn erbyn person hŷn, mae'n bolisi gan Wasanaeth Eryl y Goron i beidio â thynnu'r fflag am unrhyw reswm heblaw gwall gweinyddol. Mae hyn yn dangos ein bod ni wedi ymrwymo i drin pob trosedd o'r fath o ddifrif ac i gadw'r ffocws ar anghenion a phersbectif y dioddefwr drwy'r amser.

Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn

Nid oes troseddau penodol yn berthnasol i bobl hŷn yn unig, ond rydym yn ymwybodol fod pobl hŷn yn cael eu targedu'n amlach mewn perthynas â rhai mathau o droseddau.

Mae canllaw cyfreithiol Gwasanaeth Eryl y Goron yn darparu gwybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth berthnasol, yn ogystal â chysylltiadau â meysydd eraill, megis troseddau casineb, twyll ariannol, cam-drin domestig a gorfodaeth a rheolaeth.

Dylai'r cyhuddiadau a ddewiswn mewn unrhyw erlyniad adlewyrchu bob amser pa mor ddifrifol yw'r amgylchiadau, unrhyw elfen o ragfwrriad neu barhad yn ymddygiad y diffynnydd, profi bwriad y diffynnydd, a difrifoldeb unrhyw anaf a gafodd y dioddefwr. Rhaid i'r cyhuddiadau fod yn gymorth i ni gyflwyno'r achos yn glir ac yn syml, a rhaid iddynt roi pŵer i'r llys roi'r ddeddfryd gywir.

Ymddygiad troseddol

Mae troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gallu digwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys esgeulustod, cam-drin ariannol, cam-drin geiriol, ymosodiad corfforol a rhywiol, cam-drin domestig gan gynnwys gorfodaeth a rheolaeth, bygythiadau, lladrad, bwrghleriaeth, a difrod troseddol. Gall troseddau yn erbyn pobl hŷn ddigwydd ar-lein neu oddi ar lein, neu drwy alwad ffôn ddiwahoddiad, sgamiau drwy'r post neu ar stepen y drws, neu gall fod yn batrwm sy'n cynnwys rhai neu bob un o'r ymddygiadau hyn.

Gall digwyddiadau fod yn unigol neu'n rhan o gyfres o droseddau ailadroddus a thargedol. Gall pobl hŷn brofi trosedd, nid yn unig yn eu cartrefi eu hunain ond mewn lleoedd eraill hefyd, er enghraifft mewn cartrefi nyrsio, cartrefi gofal preswyl, ysbytai a manau cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn aml yn gallu digwydd yng nghydestun camdriniaeth sy'n ymwneud â phartner, aelod o'r teulu, cyfaill agos neu weithiwr gofal. Mae Canllawiau Camdrin Domestig [Gwasanaeth Eryl y Goron](#) yn darparu

² Hate Crime and the Legal Process – Options for Law Reform, Walters, Wiedlitzka, Owusu-Bempah a Goodall, Prifysgol Sussex, Hydref 2017

gwybodaeth fanwl i erlynwyr am yr agwedd rhywedd mewn ymddygiad o'r fath, yn ogystal â'r angen i osgoi rhagdybiaethau am oedran y dioddefwr a natur y berthynas gyda'r sawl sy'n eu cam-drin.

Mae bod yn unig ac ynysig yn gallu bod yn ffactorau risg allweddol mewn rhai mathau o droseddau yn erbyn pobl hŷn ac sy'n targedu pobl hŷn. Gallai dioddefwyr fod yn fwy tebygol o dderbyn cysylltiad gan droseddwr a dioddef sgam os ydynt yn unig neu'n ynysig.

Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn gallu cael eu targedu am gyfuniad o resymau, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, hil, crefydd ac anabledd. Pan fo tystiolaeth fod troseddwr yn cael eu cymell gan elyniaeth neu'n dangos gelyniaeth ar sail y nodweddion yma, bydd hyn yn drosedd casineb a bydd y ddefnyd yn gymwys i gael ei chwyddo. Bydd erlynwyr yn ystyried y cyhuddiadau mwyaf priodol ac yn gwneud cais i'r llys am gynydd priodol yn y ddefnyd, ar sail yr holl ffactorau gwaethybol perthnasol.

Gweler [tudalen troseddau casineb Gwasanaeth Erllyn y Goron](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Natur fregus dioddefwyr a thystion hŷn

Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pobl hŷn yn amrywio ac nad yw llawer o bobl hŷn yn fregus nac angen cymorth mewn unrhyw fodd. Fodd bynnag, bydd rhai eraill yn dibynnu ar gymorth i reoli eu materion, a bydd faint o gymorth sydd ei angen yn amrywio gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. Gall y bobl hŷn yma gael eu targedu gan droseddwr oherwydd eu natur fregus wirioneddol neu ganfyddedig sy'n gysylltiedig ag oedran, neu pan maent mewn amgylchiadau sy'n agored i niwed. Rydym yn ofalus i osgoi barnu'n anghywir am ddibynadwyedd neu hygredded person hŷn fel tyst sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys. Gallai barnu o'r fath arwain at benderfyniad anghywir wrth gyhuddo neu gallai danseilio llwyddiant posibl yr erlyniad.

Yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, rhaid tybio bod gan berson alluedd oni bai fod tystiolaeth i brofi fel arall. Rydym yn cydnabod y gallai dioddefwr fod yn gymwys i roi tystiolaeth hyd yn oed os nad oes ganddo alluedd, neu os yw dros dro heb alluedd.

Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Peidio â gwneud rhagdybiaethau am ddibynadwyedd neu hygredded tyst hŷn, a byddwn ni'n herio eraill sy'n gwneud hynny
- Sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt i roi eu tystiolaeth orau
- Adolygu a monitro'r cymorth angenrheidiol, a allai amrywio yn ôl iechyd ac amgylchiadau
- Bod yn fwy tebygol o erlyn achosion lle mae'r drosedd yn cael ei chymell gan unrhyw fath o ragfarn yn erbyn oedran person, neu dystiolaeth o gamfanteisio a thargedu ar sail oedran, pan fo digon o dystiolaeth i wneud hynny
- Cofio bod iaith yn bwysig a dim ond yn defnyddio'r term 'bregus' neu 'agored i niwed' ar gyfer pobl hŷn pan fo hynny'n briodol yng nghyd-destun y gyfraith a ffeithiau'r achos

- Cydnabod bod y gred sy'n seiliedig ar stereoteip fod person hŷn yn 'fregus' yn gallu bod yn ffactor cymhellol mewn troseddau a gyflawnir yn eu herbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am ddibynadwyedd a hygyrdded dioddefwyr a thystion, yn ogystal ag ystyriaethau dan Deddf Galluedd Meddyliol 2005, i'w cael yng nghanllaw cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Droseddau yn erbyn Pobl Hŷn.

Rhoi gwybod am droseddau yn erbyn pobl hŷn

Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r heddlu am bob trosedd yn erbyn pobl hŷn. Mae hefyd yn amhrisiadwy i'r heddlu gael gwybod am unrhyw ymddygiad blaenorol neu batrymau ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r un dioddefwr neu'r un troseddwr, fel bod modd rhoi ystyriaeth briodol i'r holl amgylchiadau.

Mae'n gyfrifoldeb ar yr heddlu i ymchwilio i'r digwyddiad ac i gasglu tystiolaeth i weld a fu trosedd ai peidio. Pan fo trosedd wedi cael ei chyflawni, mae ymchwilydd yr heddlu yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth o ansawdd uchel i gefnogi erlyniad. Mae'r heddlu'n gweithio'n agos â'r GIG, y gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw awdurdod cyfrifol arall fel rhan o'u hymchwiliad.

Gall y broses o roi gwybod am drosedd, rhoi datganiad a chael eu galw i roi tystiolaeth yn y llys fod yn brofiadau sy'n codi ofn ar unrhyw un. Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn gallu profi rhwystrau penodol yn hyn o beth. Gall y rhain gynnwys problemau trafndiaeth a symudedd, anhawster sefyll yn ystod achos llys, anhawster gweld a chlywed, ofn cael eu symud o'u cartref, bod yn gyndyn i alw ymddygiad aelod o'r teulu yn drosedd, dibyniaeth ar y sawl sy'n eu cam-drin, y risg o fod yn fwy ynysig, a theimlo cywilydd eu bod wedi dioddef sgam.

Yr heddlu sy'n gyfrifol am ystyried pa fesurau cymorth sydd eu hangen ar ddiodeffwr neu dyst yn ystod proses ymchwilio. +Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol am ystyried y cymorth sydd ei angen ar ddiodeffwr neu dyst yn ystod y broses erlyn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran 'cymorth' isod.

Byddwn ni hefyd yn gweithio gydag asiantaethau eraill, er enghraifft Safonau Masnach Cenedlaethol, sy'n awdurdod ymchwilio ac yn awdurdod erlyn, a gallant ddwyn achosion sifil ac achosion troseddol.

Ymchwiliad troseddol

Byddwn ni'n ceisio cael rhagor o dystiolaeth gan yr heddlu pan fo angen er mwyn dangos lle gallai troseddwr fod wedi cael ei dargedu oherwydd ei natur fregus wirioneddol neu ganfyddedig yn gysylltiedig ag oedran. Byddwn ni'n cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r llys fel ffactor gwaethybol sy'n cynyddu difrifoldeb y drosedd.

Mewn rhai achosion, byddwn ni'n dweud wrth yr heddlu i fynd i gyfeiriad ymholiadau rhesymol eraill. Gallai hyn gynnwys edrych ar ddiodeffwr a adroddwyd o'r blaen yn ymwneud â'r un diodeffwr, neu'r un troseddwr. Gallai gynnwys hefyd chwilio am wybodaeth neu dystiolaeth gan aelodau o'r teulu, neu asiantaethau megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG.

Penderfyniadau ynghylch cyhuddo

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo mewn achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn, rhaid i'r erlynwyr, fel ymhob achos, ddilyn y [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#).

Mechnïaeth

Os oes risg gwirioneddol o berygl, bygythiadau neu droseddau ailadroddol, byddwn ni'n ceisio diogelu dioddefwyr a thystion drwy wneud cais i'r llys remandio'r diffynnydd yn y ddalfa pan fo hynny'n briodol, neu ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth pan fo modd (er enghraifft, peidio â mynd at unrhyw berson a enwyd neu gadw draw oddi wrth ardal benodol).

Erlyn a dedfrydu

Byddwn ni'n cyflwyno tystiolaeth ar yr holl ffactorau gwaethgol a allai gynyddu difrifoldeb y drosedd a'r ddedfryd. Bydd hyn yn cynnwys effaith y drosedd ar y dioddefwr, unrhyw niwed a achoswyd iddynt, a ble cawsant eu targedu oherwydd natur fregus yn gysylltiedig ag oedran neu ganfyddiad o natur fregus yn gysylltiedig ag oedran.

Er nad oes deddfwriaeth droseddol benodol yn ymwneud â phobl hŷn fel dioddefwyr, mae canllawiau dedfrydu yn mynnu bod llysoedd yn cynyddu'r ddedfryd am droseddau yn erbyn pobl hŷn sydd wedi cael eu targedu oherwydd natur fregus yn ymwneud ag oedran.

Byddwn ni'n tynnu sylw'r llys at [Ddatganiad Personol y Dioddefwr](#), sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr ddisgrifio effeithiau'r drosedd arnynt, mynegi eu pryderon a dweud a oes angen cymorth arnynt ai peidio. Mater opsiynol llwyr yw gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr. Mae gan ddioddefwyr hawl i ddewis a ydynt eisiau darllen eu Datganiad Personol ar goedd yn y llys, a ydynt eisiau i rywun arall ei ddarllen, ynteu a ddylid ei chwarae (os yw wedi'i recordio). Hefyd, gallai'r [Datganiad Effaith Gymunedol](#) gael ei wneud i ddangos effaith troseddau ar y gymuned yn ehangach, gan gynnwys pan fo troseddwr wedi targedu nifer o unigolion ar sail eu natur fregus wirioneddol neu ganfyddedig sy'n gysylltiedig ag oedran.

Mae cyfrifoldeb arnom i gynorthwyo'r llys i ddedfrydu. Bydd erlynwyr yn gwneud cais am orchmynion ychwanegol neu ategol priodol, gan gynnwys gorchmynion ataliol ac iawndal am gollod, anaf neu ddifrod. Byddwn ni bob amser yn ystyried anghenion y dioddefwr, gan gynnwys y mater o'u diogelu yn y dyfodol a'r angen i atal rhagor o droseddu.

Mae dyletswydd ar y llys i roi rhesymau dros y ddedfryd mae'n ei rhoi, ac esbonio effaith y ddedfryd honno.

Tynnu'n ôl

Weithiau, bydd dioddefwr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen â'u hachos, neu bydd yn gofyn am gael tynnu eu cwyn yn ôl. Efallai fod nifer o resymau pam byddai hyn yn digwydd, ond nid yw'n golygu y bydd yr achos yn dod i ben fel mater o drefn. Bydd angen i'r erlynydd ganfod pam mae cefnogaeth i erlyniad wedi cael ei thynnu'n ôl, a bydd yn ystyried beth yw'r risg o ragor o niwed a beth yw effaith erlyn neu beidio ag erlyn, gan bwysu a mesur yr holl ffactorau perthnasol o ran lles y cyhoedd. Drwy ddilyn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, byddwn ni'n erlyn pob achos pan fo digon o dystiolaethpan fo gwneud hynny er lles y cyhoedd a phan nad oes ffactorau'n ein hatal rhag gwneud hynny.

Hynt yr achos – gwybodaeth i ddiodefwyr

Mae modd mynd i'r adran Dioddefwyr a Thystion ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron [i gael gwybod sut mae diodefwyr troseddau yn cael gwybod am hynt yr achos](#).

Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

O ran penderfyniadau cymhwyso, os yw dioddefwr yn gofyn am adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â dwyn achos, neu i ddod ag achos i ben, byddwn ni'n edrych eto ar y penderfyniad er mwyn gweld a oedd yn gywir. I gael gwybodaeth am ofyn am adolygiad o benderfyniad, gweler y [Canllaw ar Hawl Dioddefwyr i Adolygiad](#).

Cymorth

Mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o droseddau yn erbyn pobl hŷn yn arwain at ble euog gan ddiffynyddion, ac mae hynny'n lleihau'r angen i ddiodefwyr a thystion roi tystiolaeth yn y llys. Fodd bynnag, pan fo raid i ddiodefwyr a thystion roi tystiolaeth, rydym wedi ymrwymo i'w cefnogi i roi eu tystiolaeth orau.

Rydym yn cydnabod y gallai pobl hŷn fod angen cymorth i roi tystiolaeth ac i sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder. Uwchlaw popeth, rydym yn cydnabod pod yn rhaid trin pobl hŷn ag urddas beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Rydym yn gwybod bod pobl sy'n diodef troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gyndyn weithiau i roi gwybod am y digwyddiad heb gymorth, neu weithiau'n methu gwneud hynny. Hyd yn oed os nad oes angen cymorth, gwyddom nad yw rhai pobl hŷn yn rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau rhag ofn i'r fictimeiddio ddigwydd eto, oherwydd bod y troseddwr yn gyfaill i'r teulu neu'n aelod o'r teulu, oherwydd ofn eu bod yn parhau i ddibynnu ar y troseddwr neu y byddent yn cael eu tynnu o'u cartref eu hunain ac yn cael eu rhoi mewn sefydliad neu gartref gofal. Gall pobl hŷn fod yn darged oherwydd yr amgylchedd lle maent yn byw, er enghraifft mewn ysbyty, cartref gofal neu yn eu cartref eu hunain. Hyd yn oed os rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau, efallai fod pobl hŷn yn gyndyn i roi tystiolaeth rhag ofn y byddant yn cael eu bygwth os caiff y troseddwr ei erlyn felly efallai y bydd angen cymorth arnynt i wneud hynny.

Mae troseddwr sy'n 'fregus' neu sy'n cael eu 'bygwth' yn gallu cael eu cymorth drwy wneud cais i'r llys am [Fesurau Arbennig](#). Mesurau Arbennig yw cyfres o ddarpariaethau sy'n rhoi cymorth i dystion sy'n 'fregus' neu'n cael eu 'bygwth' i roi eu tystiolaeth orau yn y llys ac i gynorthwyo i leddfu peth o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth. Gall mesurau arbennig gynnwys defnyddio sgriniau yn y llys fel nad yw'r dioddefwr neu'r tyst yn gorfod gweld y diffynnydd, neu roi tystiolaeth o lys arall drwy gyswllt fideo. Gall y mesurau hyn fod yn gymorth i leihau straen a gorbryder. Mae cyfyngiadau ar adrodd fel mater o drefn yn berthnasol i bobl sy'n dioddef trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol eraill. [Gall cyfyngiadau ar adrodd](#) fod yn berthnasol hefyd mewn amgylchiadau eraill, os bodlonir rhai meini prawf penodol, er mwyn diogelu enw'r dioddefwr rhag cael ei ddatgelu ar y cyfryngau.

Pan fo tyst hŷn heb alluedd i wneud penderfyniad am achos, byddwn ni'n gweithio gyda'i gynrychiolydd penodedig ac yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Pan fyddant ar gael ac yn briodol, byddwn ni'n gweithio gydag Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynol a benodir dan y Ddeddf i gynorthwyo tystion hŷn i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi tystiolaeth a pha gymorth sydd ei angen arnynt i wneud hynny.

Pan fo anabledd gan berson hŷn, gallai Canllaw Cymorth [Gwasanaeth Erllyn y Goron fod yn ddefnyddiol i droseddwr anabl a phobl anabl a fu'n dyst i drosedd](#). Mae'r canllaw hwn yn nodi'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael gan Wasanaeth Erllyn y Goron, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i bobl anabl sydd wedi dioddef trosedd. Nod y Canllaw yw rhoi cymorth i ddiodeffwyr a thystion â namau i roi eu tystiolaeth orau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar [yr adran i Ddiodeffwyr a Thystion ar wefan Gwasanaeth Erllyn y Goron](#).

Gall rhai asiantaethau'r trydydd sector ddarparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra ar gyfer pobl hŷn sydd wedi dioddef trosedd. Mae'r asiantaethau'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: Age UK, Age Cymru, Action on Elder Abuse, yn ogystal ag asiantaethau sy'n cefnogi diodeffwyr cam-drin domestig.

Dyletswydd cydraddoldeb

Rydym yn awdurdod cyhoeddus i ddibenion deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r polisi hwn, a'n canllaw cyfreithiol cysylltiol, yn rhan allweddol o'n hymdrechion i gwrdd â'n rhwymedigaethau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu annheg, aflonyddu a fictimeddio pobl ar sail eu hoedran ac i hybu cydraddoldeb a pherthnasoedd da.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

Rydym yn gweithio'n lleol ac yn genedlaethol gyda'r heddlu a phartneriaid eraill sydd â rhan i'w chwarae yn mynd i'r afael â throseddau yn erbyn pobl hŷn, yn ogystal â gydag unigolion, grwpiau cymunedol ac academwyr sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn perthynas â throseddau o'r fath. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n gallu parhau i loywi ein dealltwriaeth o natur y troseddau yn erbyn pobl hŷn a'n bod ni'n gallu gwella ein hymateb i hynny.

Monitro a gweithredu

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i fonitro effaith y Canllaw Polisi hwn. Bydd pob achos sy'n cael ei fflagio fel trosedd yn erbyn person hŷn yn cael ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r gwiriadau pellach a wneir gennym yn unol â'n cyfundrefn sicrwydd genedlaethol ar gyfer troseddau casineb.

Byddwn ni hefyd yn cael adborth ar ein perfformiad drwy ein paneli lleol a chenedlaethol sy'n craffu ar achosion, penderfyniadau a pholisïau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Rydym yn cyhoeddi data ac Adroddiadau Blynyddol sy'n darparu atebolrwydd trylowydr o ran ein perfformiad ym maes troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i adolygu ei gyhoeddiadau bob blwyddyn, a bydd y canllaw polisi hwn a'r canllaw cyfreithiol cysylltiol yn cael eu hadolygu yn unol â'r ymrwymiad hwn.

Dylid nodi mai dim ond gwaith Gwasanaeth Erlyn y Goron y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron ei fonitro.

Tudalen Troseddau Casineb

Rydym wedi creu [tudalen troseddau casineb](#) ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron, lle rydym wedi cynnwys gwybodaeth am y ffordd rydym yn erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn.

15 Gorffennaf 2019